Cyfarfod yr Aelod Cabinet
Trefniadaeth a'r Gweithlu
9fed Ionawr 2024

Yr Aelod Cabinet:	Portffolio:
Y Cynghorydd Philip Hughes	Trefniadaeth a'r Gweithlu

Cyfnodau Rhybudd Contract Cyflogaeth

Y Pwrpas:

Ystyried a chytuno ar y cyfnodau rhybudd cytundebol priodol ar gyfer ein gweithlu, sy'n berthnasol i'w statws yn y sefydliad, ac wrth ystyried yr heriau recriwtio yn ein grwpiau galwedigaethol proffesiynol o ran swyddi 'anoddach recriwtio iddynt'.

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Rhoi ar waith y gofynion o ran y cyfnod rhybudd cytundebol diwygiedig yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r Undebau Llafur.

Y Rhesymau:

Cydbwyso'r hyn sy'n deg i'r gweithiwr â'r hyn sy'n rhesymol i'r sefydliad, yn enwedig o ran recriwtio gweithiwr newydd i'r swydd. Alinio ein cyfnodau rhybudd i gyd-fynd â nifer o'n cyd-Gynghorau Sir yng Nghymru a sefydliadau partner, i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo gweithwyr yn fwy amserol.

Y Gyfarwyddiaeth: Y Prif Weithredwr Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Paul Thomas Awdur yr Adroddiad: Kate Morgan	Swyddi: Y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Rheoli Pobl Uwch-bartner Busnes Adnoddau Dynol	Ffôn: Cyfeiriadau e-bost: PRThomas@sirgar.gov.uk